

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful**
HYSBYSIAD PREIFATRWYDD
Plant ag Anableddau ar y Gofrestr

Cafodd yr hysbysiad hwn ei ysgrifennu yn unol
Â Rheoliadau a deddfwriaeth berthnasol GDPR.

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu a Chofnodion

Maria Litchfield – Swyddog Datgelu a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF478AN
Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd : 10 Awst 2020
Adran â Chyfrifoldeb : Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant
Rheolwr â Chyfrifoldeb: Lisa Curtis-Jones
Cyfeiriad: CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwch yn rhyngweithio â ni. Y mae hefyd yn esbonio sut y byddwn yn cadw a delio gyda'r wybodaeth honno, yn ogystal â'i chadw'n ddiogel ac yn saff.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn. O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae'n ofynnol ein bod yn eich hysbysu o'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg ac os wnawn hynny byddwn yn sicrhau fod yna gopi wedi ei ddiweddarau ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn gyda'n Polisi Safonau Preifatrwydd ac hysbysiad preifatrwydd llawn sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ein prosesu data a gellir ei weld ar ein gwefan.

Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i sut yr ydym yn gweinyddu a rheoli Cofrestr Plant ag Anableddau. Mae'r hysbysiad yn berthnasol i'r plant sydd ag anabledd sydd wedi eu cynnwys ar y Gofrestr ac sy'n derbyn cymorth oddi wrthym ni.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir gweld manylion amdanynt ar ein gwefan. Yn yr hysbysiad hwn pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, rydym yn cyfeirio at yr Adran Archwilio Mewnol sy'n gyfrifol am brosesu eich data.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Rheoli Gwybodaeth
bost: data.protection@merthyr.gov.uk
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful Ffôn: 01685 725000
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

E-

2. Y DATA RYDYM YN EI GASGLU AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Disgrifyddion personol o'r person sy'n cofrestru'r plentyn fel eich teitl, enw llawn, cyfeiria, rhifau ffôn cyswllt, cyfeiriad e-bost, a disgrifyddion personol o'r plentyn a fydd yn cynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad, rhyw y plentyn.
- Rhifau adnabod yn cynnwys rhif cyfeirnod y Plentyn
- Manylion addysg y plentyn a fydd yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ceir categorïau arbennig o'r data personol mwy sensitif ble mae lefel uwch o ddiogelwch yn ofynnol. Rydym yn casglu, cadw a defnyddio'r categorïau canlynol o wybodaeth bersonol amdanoch chi a'ch teulu:

- Ethnigrwydd y plentyn a fydd yn cynnwys tarddiad cenedlaethol neu ethnig.
- Data iechyd sy'n berthnasol i'ch plentyn a allai gynnwys anabledau corfforol neu iechyd meddwl, asesiadau angen, a manylion ynghylch unrhyw ofal mae'r plentyn yn ei dderbyn.

Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Caiff manylion y plentyn ei dderbyn mewn nifer o ffyrdd, fel y canlynol:

- Ysgrifenedig – er enghraifft llythyr, ffurflen gais neu e-bost
- Yn bersonol
- Aelodau o'r teulu'n gweithredu ar eich rhan
- Cyfreithwyr neu drydydd parti arall yn gweithredu ar eich rhan
- Drwy gyswllt ag aelod o staff sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau rydych yn eu derbyn

Dim ond pan fydd deddfwriaeth diogelu data yn caniatáu hynny y byddwn yn defnyddio eich data personol. Bydd hyn yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol a ble y bo'n berthnasol Deddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

Yn unol ag Erthygl 6(c), sy'n berthnasol i oblygiad cyfreithiol, mae'n ofynnol bod y Cyngor yn sicrhau fod gennym Gofrestr Plant ag Anableddau mewn lle yn unol â Deddf Llesiant a Gwasanaethau Cymdeithasol 2014.

Nid yw'r gwasanaeth hwn yn seiliedig ar ganiatâd gan fod oblygiad cyfreithiol gennym i greu'r gofrestr hon, fodd bynnag, mae mynediad at y gofrestr yn wirfoddol ac yn hynny o beth gallwch ofyn i'ch plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr os yw'n ofynnol.

Fe allem ni hefyd brosesu eich data personol ble y bo'n angenrheidiol er mwyn ein buddion cyfreithlon (neu rai trydydd parti) a phan nad yw eich buddion neu hawliau sylfaenol yn goresgyn y buddion hynny.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu eich data personol ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant er mwyn darparu'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol arnoch, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws adrannau eraill y Cyngor a allai gynnwys:

Gwasanaethau Addysg
Refeniw a Buddion
Gwasanaethau Cyfreithiol
Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Dim ond i'r cyflogai hynny sy'n gweithio oddi fewn i Wasanaethau Cymdeithasol i Blant y bydd y Gofrestr yn hygyrch a byddant yn cael mynediad at ddata os oes ganddynt reswm cyfreithiol dros wneud hynny yn unig.

Ni fyddwn yn rhannu'r gofrestr gydag unrhyw sefydliad arall oni bai ei fod yn gyfreithlon ofynnol i ni ei rhannu.

Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu fersiwn ddiennw o'r gofrestr gyda Llywodraeth Cymru at ddibenion ystadegol a monitro.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn ni, yna byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag sy'n bosibl. Os byddwn ni, yna gallwch ddisgwyl cyfradd debyg o ddiogelu mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

5. AM BA MOR HIR FYDDWN NI'N DEFNYDDIO'CH GWYBODAETH

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am mor hir ag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu ar eu cyfer, yn cynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifeg neu adrodd yn ôl.

Bydd y wybodaeth bersonol a gasglwyd yn unol â'r prosesu a fanylwyd yn yr hysbysiad hwn yn cael ei chadw am 6 blynedd ar ôl pen blwydd y plentyn yn 18 oed. Mewn achosion pan fydd rhieni neu ofalwyr yn gofyn i fanylion eu plentyn gael ei dynnu i ffwrdd o'r gofrestr cyn eu pen blwydd yn 18 oed caiff cofnodion eu cadw am 6 blynedd o ddyddiad eu tynnu i ffwrdd.

Mae manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol ar gael yn ein polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

6. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Rydym wedi gosod gweithdrefnau diogelu priodol mewn lle i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, cael ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd diawdurdod, neu ei haddasu neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu'r mynediad at eich gwybodaeth bersonol i'r cyflogwyr hynny sydd ag angen busnes i wybod. Byddant ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn ôl ein cyfarwyddyd ni ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio ag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch data a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o amheuaeth o dorcyfraith ble y bo'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny

7. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan amgylchiadau penodol, mae gennych yr hawl o dan gyfraith diogelu data mewn perthynas â'ch data personol i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch chi, mae manylion am yr hawliau hyn yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd yr hawl i wneud cwyn ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, awdurdod goruchwylol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2il Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

8. MANYLION PELLACH

Os ydych yn chwilio am ragor o wybodaeth am sut ydym ni'n prosesu eich data personol gan gynnwys data diogelwch, cadw data, hawliau unigol edrychwch ar ein polisi preifatrwydd cyflawn. Gallwch hefyd gael gwybodaeth yn uniongyrchol oddi wrth wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, www.ico.org.uk.